
THE CROWN ESTATE

# Uchafbwyntiau Cymru 2019/20



UCHAFBWYNTIAU CYMRU
2019/20

# Gweithio dros Gymru

Mae Ystâd y Goron yn rheoli asedau morol a thir yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r uchafbwyntiau a'r prif ddatblygiadau am y cyfnod 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020. Mae mwy o wybodaeth ar ein gweithgareddau yng Nghymru a sut y cyflawnwn ein dyletswydd dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6 i ddiogelu'r amgylchedd naturiol ar gael ar-lein yn ein Hadroddiad Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau 2019 yn y ddolen islaw.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:
**thecrownestate.co.uk/biodiversity-report-Cymru**

## 576MW

Unwaith y bydd wedi cael caniatâd, gallai estyniad Gwynt y Môr ddarparu capasiti hyd at 576 MW.

## 65%

Rydym yn rheoli tua 65 o flaendraeth a gwelyau afon Cymru.

## 27,800 ha

Rydym yn berchen tua 27,800 hectar (68,700 acres) o dir comin Cymru.

Ym mhopeth a wnawn, anelwn gymryd golwg hirdymor ac ystyried ein gweithredoedd o bob safbwynt. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ein perthynas gyda'n holl randdeiliaid, o'n cwsmeriaid a phartneriaid hyd at y cymunedau a wasanaethwn. Ein nod yw dod â dull gweithredu partneriaeth i'r perthnasoedd hyn i sicrhau'r canlyniadau gorau i bawb.

Er mai dim ond tuag at ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 y gwelwyd y pandemig COVID-19, teimlodd rhai o'n cwsmeriaid a gweithgareddau yng Nghymru, fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ei effaith bron ar unwaith ac mae'n parhau'n sefyllfa sy'n datblygu. Ein dull gweithredu fu cadw dialog gyda'n cwsmeriaid a phartneriaid yn ystod y cyfnod anodd hwn i helpu llywio'r heriau gweithredol a ddaeth yn sgil y pandemig.

Mae adroddiad manylach o'n hymateb gweithredol ar draws y Deyrnas Unedig yng nghyswllt ein cwsmeriaid a'n rhwydweithiau ehangach ar gael ar dudalen 18 ein Hadroddiad Blynyddol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:
**thecrownestate.co.uk/2020-annual-report-document**

### Meysydd cyfrifoldeb

Mae ein cyfrifoldebau yng Nghymru yn cynnwys gwely'r môr hyd at 12 milltir forol. Mae ein buddiannau felly yn cynnwys ynni adnewyddadwy (ein gweithgaredd mwyaf sylweddol yn y rhanbarth), pibellau olew a nwy, codi agregau morol, telegyfathrebu a cheblau pŵer. Yn ychwanegol, mae gennym hawliau i'r adnoddau ar y silff gyfandirol, megis adnoddau naturiol ac ynni ar y môr, ond yn eithrio tanwyddau ffosil.

Rydym hefyd yn rheoli tua 65 y cant o flaendraeth a gwelyau afonydd Cymru, sy'n cynnwys nifer o borthladdoedd, tebyg i borthladd prysur ac aml-swyddogaeth Aberdaugleddau yn Sir Benfro, a gwahanol farinas.

Mae dyframaeth yn sector cynyddol bwysig a rhagwelwn y caiff cynlluniau newydd eu hystyried ar draws Cymru. Rydym wedi rhoi hawliau yn ddiweddar i dreialu prosiect ffermio môr 3D - system gynaliadwy o ffermio sy'n galluogi cyd-ledaeniad fertigol ac amaethu gwymon a physgod cregyn dan wyneb y dŵr.

Yn ychwanegol, rydym wedi dyfarnu hawliau i hadu ardal dau hectar (20,000 m sg) o wely'r môr gyda morwellt mewn cynllun peilot yn agos at Dale ger Aberdaugleddau. Dros y tair i bum mlynedd nesaf dylai'r buddion i'r amgylchedd gynnwys dal a storio carbon a ffurfio cynefin morol. Os yw'n llwyddiannus, medrid ymestyn y prosiect ar draws Cymru ac yn ehangach yn y Deyrnas Unedig.

Ar y tir, rydym yn berchen tua 27,800 hectar (68,700 erw) o dir comin yng Nghymru, sydd yn bennaf yn dir garw ar gyfer pori ond sydd hefyd yn gweithredu fel adnodd naturiol pwysig i bawb ei fwynhau yng nghefn gwlad Cymru.

Rydym yn gyfrifol am tua 100,000 hectar (247,000 erw) o fuddiannau mwynau yn unig, gydag wyth safle ar hyn o bryd ar brydles i gloddio mwynau. Yn ychwanegol, rydym yn berchen adneuon aur ac arian, a elwir y Mwyngloddiau Brenhinol. Mae dwy brydles Mwyngloddiau Brenhinol yng Nghymru a sampl crynswth yn yr arfaeth sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Mae hefyd ddau gytundeb opsiwn cyfredol a phedwar cytundeb opsiwn yn yr arfaeth gan y Mwyngloddiau Brenhinol.

### Gweithio mewn partneriaeth

Caiff ein hymagwedd at reoli asedau yng Nghymru ei seilio ar ddull gweithredu partneriaeth lle'r ydym yn gweithio gydag ystod amrywiol o sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, gan ddeall ei nodau a gweithio gyda nifer o adrannau ar flaenoriaethau a rannwn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn gweithio gyda nifer o sefydliadau yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddiffinio a sefydlu rhaglen newydd i hwyluso ehangu gwynt ar y môr mewn modd cynaliadwy a chydlynol yn y Deyrnas Unedig – rhaglen Tystiolaeth a Newid Gwynt Ar y Môr. Bydd y rhaglen ar y cyd yma'n helpu'r sector i gyflawni ymrwymiadau'r Deyrnas Unedig i'r trosiant i ynni carbon isel tra'n cefnogi gweithredu i sicrhau moroedd glân, iach, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol.

Ym mis Tachwedd 2019 cafodd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru, ac fel rhan o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol, fe wnaethom roi data ac arbenigedd i helpu gyda datblygiad y Cynllun ac rydym yn parhau i ymwneud â'i weithredu.

Rydym yn parhau i fwynhau perthynas gref gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn gweithio mewn partneriaeth lle mae gennym ddaliadau i sicrhau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu rheoli mewn modd cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor.

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgorau a grwpiau ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys aelodaeth o Grŵp Gweithredu ac Ymgynghori Morol Cymru a'r Grŵp Llywio Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Gwarchodedig Morol i sicrhau dull gweithredu cydlynol a rhannu gwybodaeth ar draws y gofod morol.

## Cefnogi ynni adnewyddadwy ar y môr

### Gwynt ar y môr

Cafodd sector gwynt ar y môr y Deyrnas Unedig flwyddyn bwysig arall, gan weld capasiti gweithredol yn cynyddu i 9.3GW. Bu gan fferm wynt 576MW Gwynt y Môr oddi ar arfordir gogledd Cymru, un o'r ffermydd gwynt gweithredol mwyaf yn y Deyrnas Unedig, ran sylweddol yn hyn. Ar ôl 2018/19 tawel, dychwelodd cyflymder gwynt i'r arferol yn ystod y flwyddyn ac yn dilyn dechrau neilltuol o wyntog ar 2020 yng Nghymru, cynyddodd refeniw o wynt ar y môr yng Nghymru ym mlwyddyn ariannol 2019/20.

Fe wnaethom gwblhau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel cynllun ar gyfer cyfle Estyniadau 2017 yn ystod 2019. Arweiniodd hyn at bron 3GW o brosiectau newydd ar draws moroedd Lloegr a Chymru gan symud ymlaen i ddyfarnu hawliau gwely'r môr, ynghyd â ffermydd gwynt gweithredol presennol. Roedd hyn yn cynnwys yr estyniad arfaethedig i Gwynt y Môr, a elwir yn Awel y Môr. Unwaith y sicrhawyd caniatâd, gallai'r estyniad ddarparu hyd at 576 MW o gapasiti, yn agos at y prosiect presennol, gan gefnogi Cymru wrth gyflawni ei uchelgeisiau sero-net carbon a dod â buddion pellach i'r gymuned leol.

Cafodd ardaloedd o wely môr Cymru hefyd eu cynnwys yng Nghylch 4 Prydlesau Gwynt ar y Môr – ein cylch prydlesau mawr cyntaf yn y Deyrnas Unedig mewn degawd. Cafodd ei lansio ym mis Medi 2019, gyda'r broses cyn-cymhwyso yn cael ei chwblhau yn gynnar yn 2020. Mae Ardal Cynnig Gogledd Cymru a Môr Iwerddon yn un o bedair ardal gwely'r môr a fu ar gael i'r farchnad fel rhan o broses Cylch 4. Caiff prosiectau o Gylch Prydlesau 4 eu dynodi yn ddiweddarach eleni, fel rhan o broses dendro gystadleuol, ac yn amodol ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel Cynllun, gellid dyfarnu hawliau yn 2021. Gallai prosiectau Cylch 4, unwaith iddynt gael caniatâd a'u datblygu, fod yn weithredol mor gynnar â 2030.

### Gwynt arnofiol ar y môr

Ar ôl diwedd y flwyddyn, ym mis Awst 2020, fe wnaethom gyhoeddi dyfarnu hawliau gwely môr i'r datblygydd Blue Gem Wind (menter ar y cyd rhwng Total a Simply Blue Energy), ar gyfer prosiect arddangos gwynt arnofiol arfaethedig 96 MW Erebus, yn nyfroedd Cymru y Môr Celtaidd, tua 44km o'r arfordir. Hwn yw'r tro cyntaf y dyfarnwyd hawliau ar gyfer gwynt arnofiol yng Nghymru, gan nodi moment arwyddocaol ar gyfer y sector gwynt ar y môr yng Nghymru.

Daw'r prosiect ymlaen fel rhan o'n cyfle Arloesedd ac Arddangos Gwynt Ar y Môr parhaus, a gynlluniwyd i hwyluso arloesedd cyn-fasnachol drwy dreialu technolegau newydd ac sy'n datblygu mewn amodau byw. Disgwylir i dechnolegau arnofiol, sy'n fwy addas ar gyfer dyfroedd dyfnach na sylfeini 'sefydlog' traddodiadol, gael rhan allweddol yn nyfodol cynaliadwy gwynt ar y môr y Deyrnas Unedig, gan ddatgloi ardaloedd newydd o wely'r môr.

### Tonnau a llanw

Mae gan Gymru hefyd botensial sylweddol ar gyfer ynni tonnau a llanw. Rydym yn parhau i fod â rôl yn cefnogi'r sector hwn drwy ymgysylltu gyda Gweithgor Ynni Morol Cymru, Grŵp Strategol Cynghori ar Ganiatadau (CSAG)  Llywodraeth Cymru a thrwy drafodaethau gyda'n cwsmeriaid am y materion sy'n wynebu'r safleoedd a ddyfarnwyd ar brydles iddynt. Rydym yn parhau i gynnig cyfle i gael mynediad i wely'r môr ar gyfer prosiectau tonnau hyd at 3MW neu brosiectau ffrwd lanw hyd at 30MW.

Mae llawer o ddiddordeb datblygu yng Nghymru mewn tonnau a llanw ac mae nifer o brosiectau profi ac arddangos yn targedu dyddiad dechrau yn 2023 sy'n gydnaws gyda'r ffrydiau cyllid ehangach. Mae ein cytundebau a gyhoeddwyd i'r partïon â diddordeb wedi rhoi ystyriaeth i'r amserlenni hyn, ond prif nod y datblygwyr ar hyn o bryd yw sicrhau'r caniatâd cynllunio perthnasol a chyllid.

### Agregau morol

Ystâd y Goron sy'n gyfrifol am drwyddedu codi agregau lle'r ydym yn rheoli gwely'r môr. Mae agregau morol yn adnodd pwysig i Gymru, gan ffurfio tua 70% o werthiannau tywod a gro yn Ne Cymru.

Yn 2019, cynyddodd cyfanswm tunelli metrig yr agregau morol a gyflenwyd i borthladdoedd Cymru i 683,725 tunnell fetrig, gyda 512,955 tunnell fetrig yn cael eu codi o ddyfroedd Cymru. Codwyd cyfanswm o 914,267 tunnell o ddyfroedd Cymru, cynnydd o 142% ar y flwyddyn flaenorol.

Mae'r cynnydd hwn yn bennaf fel canlyniad i dair ardal Fforio newydd yn symud i fod yn ardaloedd Cynhyrchu yn gynnar yn 2019.

Yn dilyn y diddordeb sylweddol yn ein tendr agregau morol diwethaf, a ddaeth i ben yn 2019, rydym wedi cadarnhau y byddwn yn cynnal cylch trwyddedu pellach yn 2021.

Yn 2018 fe wnaethom gyflwyno ein System Monitro Electronig (EMS) cenhedlaeth nesaf ar fflyd treillio agregau morol y Deyrnas Unedig. Buom yn datblygu'r system hon ymhellach i greu fersiwn arbennig ar gyfer y fflyd treillio contract nad yw'n rheolaidd, a anelwyd at brosiectau addasu arfordirol unigol megis adlenwi traethau a threillio cyfalaf. Cwblhawyd treialon môr ar y system ac anelwn ei chyflwyno ddiwedd 2020. Bydd ei chyflwyniad yn hwyluso monitro treillwyr sy'n gweithredu ar drwyddedau agregau morol ar sail ad-hoc, dros dro pan mae'n anymarferol i ffitio'r system reolaidd, a bydd yn ein galluogi i sicrhau fod yr holl weithgaredd treillio yn ein dyfroedd yn parhau i gael eu gwneud mewn modd cyfrifol a chydymffurfiol.

### Rhannu gwybodaeth

Mae ein timau arbenigol mewn safle unigryw i edrych ar y darlun ehangach ar draws ystod o sectorau, gan drin gofynion sy'n cystadlu am ofod a helpu i ddatgloi cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy. Gwnawn hyn drwy ymgysylltu gyda rhanddeiliaid diwydiant a hwyluso gwell rhannu gwybodaeth. Mae ein Cyfnewidfa Data Morol yn parhau i dyfu ac mae'n awr yn dal dros 27TB o ddata arolwg ar y môr a gasglwyd yn nyfroedd Cymru rhwng 1956 a 2019. Mae'n cynnwys amrywiaeth o ymgyrchoedd arolwg, yn cynnwys monitro amgylcheddol, ymchwiliad safle a data meteorolegol o sectorau fel gwynt ar y môr, ffrwd lanw ac agregau morol. Mae dros hanner y data hwn ar gael i'r cyhoedd gael mynediad iddo a'i lawrlwytho am ddim o'r ddolen islaw:

**I gael mwy o wybodaeth gweler:**
**marinedataexchange.co.uk**


Wrth i'r sector ar y môr barhau i dyfu, mae'n bwysig sicrhau y caiff ymchwil ynni morol a rhannu gwybodaeth ei gydlynu i adeiladu sector cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor. Wrth ochr Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid diwydiant arall, rydym yn parhau i gefnogi'r Gyd-raglen Diwydiant Adnewyddadwy Ar y Môr (ORJIP) ar gyfer Ynni Môr. Mae hyn yn dod ynghyd â diwydiant, rheoleiddwyr, ymchwilwyr a chyllidwyr fel y caiff risgiau caniatâd y sector eu cyfarch mewn modd strategol a chydlynol. Mae hyn yn osgoi dyblygu gwaith ac, yn ei dro, yn helpu i ostwng oedi wrth ddarparu prosiectau.

# UCHAFBWYNTIAU CYMRU 2019/20

## UCHAFBWYNTIAU ARIANNOL (HEB EU HARCHWILIO)

### Refeniw yn ôl gweithgaredd 2019/20

£8.8m




Portffolio

| Portffolio | |
|---|---|
| Ynni, Mwynau a Seilwaith | £8.7m |
| Rhanbarthol | £0.1m |

### Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd fel ar 31 Mawrth 2020

£96.8m



Portffolio

| Portffolio | |
|---|---|
| Ynni, Mwynau a Seilwaith | £96.2m |
| Rhanbarthol | £0.6m |

## Ystâd y Goron yng Nghymru

| | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 £m | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 £m | Ystâd y Goron Cyfanswm Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 £m | Ystâd y Goron Cyfanswm Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 £m | Ystâd y Goron Cymru cynnydd/ (gostyngiad) o'r flwyddyn flaenorol % | Ystâd y Goron Cymru Canran o'r Cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 8.8 | 7.3 | 476.0 | 441.0 | 20.5 | 1.8 |
| Gwarged crynswth | 8.4 | 7.0 | 389.4 | 379.8 | 20.0 | 2.2 |
| Gwerth eiddo | 96.8 | 93.0 | 12,522.1 | 12,526.1 | 4.1 | 0.8 |
| Buddsoddiadau Cyfalaf | 0.2 | 0.2 | 458.5 | 381.3 | | |
| Derbynebau Cyfalaf | 1.7 | – | 356.5 | 192.8 | | |

| Refeniw yn ôl gweithgaredd | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 £m | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 (ailddatgan) £m |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 0.1 | 0.1 |
| Coedwigaeth | – | – |
| Rhanbarthol | 0.1 | 0.1 |
| Ceblau/pibelli | 1.1 | 1.1 |
| Arfordirol | 1.9 | 1.4 |
| Mwynau | 0.9 | 1.1 |
| Treillio | 1.4 | 0.6 |
| Ffynonellau adnewyddadwy | 3.4 | 3.0 |
| Ynni, Mwynau a Seilwaith | 8.7 | 7.2 |
| Cyfanswm | 8.8 | 7.3 |

| Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2020 £m | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 (ailddatgan) £m |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 0.6 | 2.5 |
| Coedwigaeth | – | 0.1 |
| Rhanbarthol | 0.6 | 2.6 |
| Ceblau/pibelli | 13.3 | 13.0 |
| Arfordirol | 17.5 | 17.0 |
| Mwynau | 5.7 | 6.2 |
| Treillio | 10.5 | 5.0 |
| Ffynonellau adnewyddadwy | 49.2 | 49.2 |
| Ynni, Mwynau a Seilwaith | 96.2 | 90.4 |
| Cyfanswm | 96.8 | 93.0 |

Nodyn: ar 1 Ebrill 2019, unodd y portffolio Gwledig gyda'r portffolio Rhanbarthol ac unodd y portffolio Arfordirol gyda'r portffolio Ynni, Mwynau a Seilwaith ac fel canlyniad cafodd y dadansoddiad ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 ei ailddatgan.

**LLUNDAIN**
Ystâd y Goron
1 St James's Market
Llundain
SW1Y 4AH
T 020 7851 5000

**WINDSOR**
Ystâd y Goron
The Great Park
Windsor
SL4 2HT
T 01753 860 222

thecrownestate.co.uk
@TheCrownEstate